

YSBRYDOLIAETH AC ADNODDAU
AR GYFER GWASANAETHAU

FLY
THE
FLAG

FLY THE FLAG

PECYN ADDYSG

2020

“The opposite of
poverty is not wealth,
the opposite of
poverty is justice.”

O ‘JUST MERCY’ GAN BRYAN JOHNSON,
CYFREITHIWR A SYLFAENYDD EQUAL JUSTICE INITIATIVE

CYFLWYNIAD

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn	5
Gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i athrawon	6
Nodyn ar y cynnwys	5
Nodyn ar iaith	5
Ynglŷn â <i>Fly The Flag</i>	7

CYNRADD

Cyfnodau Allweddol 1 a 2

Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr nad ydynt wedi astudio Hawliau Dynol	8
Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr sydd wedi astudio Hawliau Dynol	8
Ysbrydoliaeth ar gyfer Gwasanaethau	9
Myfyrion / cwestiynau trafod	10
Awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau dan arweiniad athrawon a myfyrwyr ar y cyd	10

UWCHRADD

Cyfnodau Allweddol 3, 4 a 5

Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr nad ydynt wedi astudio Hawliau Dynol	11
Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr sydd wedi astudio Hawliau Dynol	11
Ysbrydoliaeth ar gyfer Gwasanaethau	12
Myfyrion / cwestiynau trafod	15
Awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau dan arweiniad athrawon a myfyrwyr ar y cyd	15

ADNODDAU

Fersiwn wedi'i symleiddio o Erthygl 25	16
Delwedd o'r Fanner	17
Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, fersiwn wedi'i symleiddio	19
Rhgair i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, fersiwn testun plaen	21
Adnoddau ychwanegol	22

SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

Bydd y pecyn hwn yn eich cefnogi i ddarparu gwasanaethau i archwilio Erthygl 25 o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a phrosiect Fly The Flag gyda'ch myfyrwyr. Mae'n ategu'r adnoddau addysgu am ddim ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1-5 sydd ar gael ar wefan *Fly The Flag*. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i adeiladu ar wybodaeth y myfyriwr os yw wedi cwblhau'r gwersi *Fly the Flag*, neu wersi hawliau dynol eraill, a gall hefyd eich cefnogi i ddarparu gwasanaethau sy'n gyflwyniad i hawliau dynol.

Yn y pecyn hwn fe welwch ddewislen o awgrymiadau ac adnoddau y gallwch ddewis o'u plith i greu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion eich myfyrwyr a'ch ysgol. Fe'i trefnir yn ôl lefel gynradd ac uwchradd. Gallwch ddefnyddio'r pecyn hwn i ddatblygu gwasanaeth ysgol gyfan neu flwyddyn ar-lein neu'n bersonol, neu i greu moment o fyfyrddod yn y dosbarth neu amser tiwtor.

Bydd y 'Gwybodaeth Gefndir Ddefnyddiol i Athrawon' yn sicrhau eich bod yn deall y cyd-destun hawliau dynol. Gallwch ei defnyddio i gyflwyno'ch gwasanaeth. Ceir awgrymiadau hefyd ar gyfer gwasanaethau y gall myfyrwyr gymryd rhan ynddynt, neu eu harwain ar y cyd gydag athrawon. Yng nghefn y pecyn fe welwch ystod o adnoddau y gallwch eu defnyddio i greu cyflwyniadau.



Nodyn ar y cynnwys: Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o amgylchiadau personol eich myfyrwyr a chynllunio'ch gwasanaeth yn unol â hynny. Mae'n bosibl nad yw rhai o hawliau dynol eich myfyrwyr yn cael eu bodloni ar hyn o bryd, er enghraifft, o ran tai, iechyd neu statws ffoaduriaid. Anogir codi a thrafod y materion hyn mewn gwasanaeth ond bydd angen sensitifrwydd a chefnogaeth. Gall fod y pandemig Coronafeirws yn cynyddu profiadau ac anfantaes myfyrwyr.



Nodyn Ar Iaith: Mae *Fly The Flag* yn ofalus wrth ddefnyddio'r term 'dathlu'. Mae hwn yn benderfyniad ymwybodol sy'n cydnabod nad yw hawliau dynol llawer o bobl yn y DU a ledled y byd yn cael eu bodloni ar hyn o bryd, yn enwedig yn 2020. Mae hefyd yn cydnabod nad yw hawliau dynol yn fraint.

SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

GWYBODAETH GEFNDIR DDEFNYDDIOL I ATHRAWON

Gall y wybodaeth hon eich helpu i gyflwyno'ch gwasanaeth.

Mae *Fly The Flag* yn brosiect i annog pobl i ddysgu am eu hawliau dynol, ac i'w hamddiffyn.

Mae llawer o wahanol sefydliadau celfyddydol ledled y DU i gyd wedi gweithio gyda sefydliadau hawliau dynol i helpu pobl yn y DU i ddysgu am eu hawliau dynol, a sut mae hawliau dynol yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau bob dydd.

Mae'r celfyddydau yn galluogi pobl i ddychmygu ffyrdd newydd o fod, neu o wneud pethau, a gallant chwarae rhan arwyddocaol yn y gwaith o greu newid ystyrion, ar gyfer unigolion, cymunedau a chymdeithasau. Gall y celfyddydau ein helpu i ddysgu am ein hawliau dynol, eu mynegi a'u hamddiffyn.

Yn 2018 gofynnwyd i'r artist Ai Weiwei ddylunio baner fel symbol ar gyfer hawliau dynol, i nodi 70 mlwyddiant y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

Mae Ai Weiwei wedi profi torri ei hawliau dynol ac mae wedi creu gwaith celf a ffilmiau mewn ymateb i dorri hawliau dynol pobl, gan gynnwys rhai ffoaduriaid. Mae'r faner yn rhywbeth y gall pobl ymgasglu o'i chwmpas. Gellir ei defnyddio i ddathlu, i brotestio neu ei hongian i roi gwybod i bobl bod lle penodol yn parchu hawliau dynol.

Yn 2020 comisiynwyd 25 o feirdd i ysgrifennu ymatebion i Erthygl 25, gan gydnabod bod y pandemig Coronafeirws ac ymatebion y llywodraeth wedi effeithio ar hawl pobl i fywyd da. Rhennir recordiadau o'r cerddi ar wefan *Fly The Flag* o 10 Rhagfyr 2020, sef 73 mlwyddiant llofnodi'r UDHR.

Mae pob ysgol yn y wlad wedi cael gwahoddiad i ymuno ac i *Fly The Flag*, gan ddysgu am hawliau dynol a rhannu eu hymchwilio. Erthygl 26 o'r UDHR yw'r hawl i addysg ac i ddysgu am hawliau dynol.

Mae ein hawliau dynol yn ddiymwad ac yn anwahanadwy, mae hynny'n golygu bod gan

bawb yr un hawliau, ni all neb eu cymryd oddi arnoch, ac mae pob hawl mor bwysig â'r lleill.

Gellir arfer hawliau dynol – dod i'r ysgol am addysg am ddim, mwynhau'r celfyddydau, cael mynediad i ofal iechyd.

Gellir torri hawliau dynol - pan na fydd pobl yn cael eu trin yn gyfartal oherwydd eu hil, rhyw, ffydd neu dueddfryd rhywiol, pan nad oes digon o dai ar gael i bobl, pan nad yw ffoaduriaid yn cael croeso rhywle.

Gellir amddiffyn hawliau dynol – drwy siarad am dorri hawliau dynol, drwy brotest, lobio arweinwyr a sefydliadau a thrwy'r llysoedd.

Mae angen i ni wybod beth yw ein hawliau dynol er mwyn eu hamddiffyn.

Rydym yn eich annog i gymryd eiliad i fyfyrion ar eich meddyliau, eich gwerthoedd a'ch agweddau mewn perthynas â'r cynnwys cyn cynllunio'ch gwasanaeth a gwahodd ymatebion eich myfyriwr.

RHANNWCH

Rydym yn falch iawn bod eich ysgol yn ymuno â'r symudiad pwerus hwn o obaith, dod ynghyd, myfyrio a chreadigrwydd ledled y DU.

Byddem wrth ein bodd yn hyrwyddo gweithgarwch *Fly The Flag* eich ysgol ar ein cyfryngau cymdeithasol, ac rydym yn eich gwahodd i rannu gyda ni



@we_flytheflag



@we_flytheflag



/Fly-The-Flag-122826161959107/

CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

Dewiswch o'r ddewislen hon o adnoddau i greu gwasanaeth sy'n addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol. Gallwch ddefnyddio hwn i greu gwasanaeth grŵp blwyddyn neu gyflwyniad a thrafodaeth grŵp tiwtor. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cefndir defnyddiol ar gyfer athrawon, ar dudalen 6, a'r adnoddau yn y sleidiau a baratowyd ymlaen llaw sy'n cyd-fynd â'r pecyn hwn.

Mae'r awgrymiadau hyn yn ategu'r adnoddau Cyfnod Allweddol 1 a 2 sydd am ddim ar [wefan Fly The Flag](#) a gellir eu defnyddio i greu gwasanaeth cyn neu ar ôl i fyfyrwyr astudio hawliau dynol.

Sicrhewch eich bod wedi gwyllo unrhyw gynnwys fideo i sicrhau ei fod yn addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol.

GWASANAETH I FYFYRWYR NAD YDYNT WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud

Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* a defnyddiwch y sleidiau rhagarweiniol i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a ddyluniwyd gan Ai Weiwei (3 munud).

Dangoswch y ffilm *What's Fair* a chwblhewch y gweithgaredd (10 munud)

Dewiswch gerdd o sleidiau pecyn Gwasanaeth CA1 a 2 (ar gael o 10/12/20) i fyfyrwyr wrando arni

GWASANAETH I FYFYRWYR SYDD WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud

Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* a defnyddiwch y sleidiau rhagarweiniol i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a ddyluniwyd gan Ai Weiwei (3 munud).

Cwblhewch y gweithgaredd Rhyddid rhag Eisiau (10 munud)

Dewiswch gerdd o sleidiau pecyn Gwasanaeth CA1 a 2 (ar gael o 10/12/20) i fyfyrwyr wrando arni

CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: DEALL ERTHYGL 25

 10 munud

Gofynnwch i'r myfyrwyr am awgrymiadau o'r hyn maen nhw'n meddwl sydd ei angen arnyn nhw i gael bywyd da.

Gallai cwestiynau cymorth gynnwys - ble maen nhw'n byw? Sut maen nhw'n cadw'n iach?

Gallech ofyn i athro arall ysgrifennu awgrymiadau myfyrwyr ar siart troi neu fwrdd gwyn a rennir.

Rhannwch y fersiwn wedi'i symleiddio o Erthygl 25, yn y pecyn sleidiau. Gallech ofyn i fyfyrwr ddarllen y dyfyniad.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ar beth maen nhw'n sylwi, yn ei hoffi neu'n ei chael yn ddiddorol am yr erthygl hon. A oes unrhyw beth y byddent yn ei ychwanegu? Gallech gyflwyno nad oes sôn am ddŵr, neu sut yr ysgrifennwyd hwn cyn y rhyngwyd - a ddylid cynnwys mynediad i'r rhyngwyd?

FFILM: 'WHAT'S FAIR?'

 10 munud

What is Fair? Animeiddiad BBC Teach PSHE CA1 / 2 (hyd y ffilm: 2 funud 55 eiliad)

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth oedden nhw'n ei gofio neu'n sylwi arno yn y ffilm.

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am ystyr tegwch yn eu barn nhw, neu droi at eu cymydog a rhannu hynny.


Gofynnwch i'r myfyrwyr bleidleisio Ydy/Nac ydy ar y cwestiynau canlynol - a yw tegwch yn golygu y dylai pawb gael yr un pethau? Yn y ffilm fer mae Karim wedi brifo ei fraich - ydy hi'n deg ei fod yn cario'r un peth â'r lleill? Nid oes gan Ben lawer o fwyd - a yw'n deg bod ganddo lai i'w fwyta?

Rhannwch y fersiwn wedi'i symleiddio o Erthygl 25 o becyn sleidiau CA1 a 2. Gallech ofyn i fyfyrwr ddarllen y dyfyniad.

Gofynnwch i'r myfyrwyr sylwi bod Erthygl 25 yn dweud bod gan bob un ohonom yr hawl i ddigon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. A bod gan bobl nad ydyn nhw o bosib yn gallu gweithio - mamau â babanod, rhai pobl ag anableddau, pobl nad ydyn nhw'n gallu dod o hyd i swyddi yr hawl hon hefyd. Weithiau, efallai y bydd angen pethau gwahanol ar bobl, neu help ychwanegol. Nid yw tegwch bob amser yn golygu bod pawb yn cael yr un peth, mae'n golygu bod anghenion pawb am fwyd, cynhesrwydd ac iechyd yn cael eu bodloni. Gallech wahodd myfyrwyr i siarad â'r person sy'n eistedd wrth eu hymyl neu wahodd awgrymiadau gan y gwasanaeth cyfan. Pam mae'n bwysig i chi gael eich trin yn gyfartal yn [lleoedd a awgrymir gan y myfyrwyr]? Sut allwch chi sicrhau bod pobl eraill yn cael eu trin yn gyfartal yn [lleoedd a awgrymir gan y myfyrwyr]? Beth allwch chi ei wneud yn [lleoedd a awgrymir gan y myfyrwyr] i sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas?

CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

GWEITHGAREDD RHAGWEITHIOL: RHYDDID RHAG EISIAU

 10 munud

Rhannwch y ddelwedd Rhyddid rhag Eisiau o becyn sleidiau Gwasanaeth CA1 a 2

Yn 2017 ymchwiliodd yr elusen Oxfam i sut roedd cyfoeth yn cael ei rannu rhwng pawb ar y Ddaear. Fe wnaethant ddarganfod bod yr 8 person cyfoethocaf yn y byd (pob un yn ddynion) yn rhannu'r un faint o gyfoeth â'r 50% tlotaf o bobl yn y byd. Dyna 8 o bobl sydd â'r un faint â 3.8 biliwn o bobl (Dyna 3,800,000,000, neu fwy na 50 gwaith y bobl yn y Deyrnas Unedig)

Gofynnwch i'r myfyrwyr a ydyn nhw'n credu bod gan yr 8 person cyfoethocaf yn y byd ddigon i gael bywyd da? Pam? Ydych chi'n meddwl bod gan y 50% tlotaf o bobl yn y byd ddigon i gael bywyd da? Pam?

Mae Erthygl 25 o'r UDHR yn dweud y dylai pawb gael y pethau sydd eu hangen arnynt i gael bywyd da - digon o fwyd, dillad, cysgod a mynediad at ofal iechyd. Dywedodd Arlywydd America, Franklin D. Roosevelt, mai 'rhyddid rhag eisiau' oedd hwn.

MYFYRIO / CWESTIYNAU TRAFOD

Pe bai pawb yn cael bywyd da, sut fyddai'r byd yn wahanol?

A all tegwch newid y byd? Sut?

A all pobl gyffredin newid y byd? Sut?

Beth allwch chi ei wneud i drin pawb yn deg?

AWGRYMIADAU AR GYFER GWASANAETHAU DAN ARWEINIAD ATHRAWON A MYFYRWYR AR Y CYD

Gall myfyrwyr unigol neu grwpiau bach greu darluniau i ddarlunio elfennau penodol o Erthygl 25. Gall y rhain fod yn arddangosfa neu gellir tynnu lluniau ohonynt a'u defnyddio mewn cyflwyniad

Mae myfyrwyr yn creu cyfres o dablôs (fframiau wedi'u rhewi neu ddelweddau llonydd) i gynrychioli gwahanol elfennau Erthygl 25, gan gyferbynnu syniadau am fyd lle nad yw'r elfennau hynny yn cael eu bodloni â byd lle y maent.

Rhannwch y baneri y mae'r myfyrwyr yn eu gwneud fel rhan o wersi *Fly The Flag*.

Rhannu cyflwyniad am Eleanor Roosevelt neu Ai Weiwei, wedi'i greu fel gweithgaredd dilynol i'r cynlluniau gwersi *Fly The Flag*.


UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

Dewiswch o'r ddewislen hon o adnoddau i greu gwasanaeth sy'n addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol. Gallwch ddefnyddio hwn i greu gwasanaeth grŵp blwyddyn neu gyflwyniad a thrafodaeth grŵp tiwtor. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cefndir defnyddiol ar gyfer athrawon, ar dudalen 6, a'r adnoddau yn y sleidiau a baratowyd ymlaen llaw sy'n cyd-fynd â'r pecyn hwn.

Mae'r awgrymiadau hyn yn ategu'r adnoddau Cyfnod Allweddol 3, 4 a 5 sydd am ddim ar wefan *Fly The Flag* a gellir eu defnyddio i greu gwasanaeth cyn neu ar ôl i fyfyrwyr astudio hawliau dynol.

Sicrhewch eich bod wedi gwyllo unrhyw gynnwys fideo i sicrhau ei fod yn addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol.

GWASANAETH I FYFYRWYR NAD YDYNT WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud

Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* a defnyddiwch y sleidiau rhagarweiniol i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a ddyluniwyd gan Ai Weiwei (3 munud).

Dangoswch y ffilm Cyflwyniad i'r UDHR - Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y DU (2 funud)

Gweithgarwch archwilio Erthygl 25 (10 munud)

Dewiswch gerdd o sleidiau Pecyn Gwasanaeth CA 3, 4 a 5 (ar gael o 10/12/20) i fyfyrwyr wrando arni

GWASANAETH I FYFYRWYR SYDD WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud


Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* a defnyddiwch y sleidiau rhagarweiniol i gyflwyno'r gwasanaeth, y faner a ddyluniwyd gan Ai Weiwei a'r cerddi a gomisiynwyd ar gyfer 2020 (5 munud).

Gweithgaredd Tlodi a Chyfiawnder (10 munud)

Dewiswch gerdd o sleidiau Pecyn Gwasanaeth CA 3, 4 a 5 (ar gael o 10/12/20) i fyfyrwyr wrando arni

UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

FFILM: CYFLWYNIAD I'R UDHR

 5 munud

Mae'r ffilmiau canlynol yn fan cychwyn defnyddiol neu'n adnodd gloywi i atgoffa myfyrwyr yr hyn yw eu hawliau dynol.

[Fideo Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y DU](#) (1 mun 49 eiliad).

Cyflwyniad i hawliau dynol, a'r UDHR gyda ffocws penodol ar y DU

NEU

[Amnest Rhyngwladol: Hawliau dynol mewn dau funud](#) (2 funud 33 eiliad)

Cyflwyniad i ddatblygiad yr UDHR, a throsolwg o'r gwahanol hawliau, eu anrhanadwyedd a rôl pawb wrth gynnal yr hawliau hynny.

Gofynnwch i'r myfyrwyr rannu neu fyfyrion ar sut maen nhw'n meddwl y gallai digwyddiadau 2020 fod wedi effeithio ar hawliau dynol pobl.

GWEITHGAREDD RHAGWEITHIOL: ARCHWILIO ERTHYGL 25

 10 munud

Rhannwch destun gwreiddiol Erthygl 25 o becyn sleidiau Gwasanaeth CA 3, 4 a 5. Gallech ofyn i fyfyrwr ei darllen yn uchel. Beth mae myfyrwr yn sylwi o ran yr iaith a ddefnyddir? Mae'r iaith a'r syniadau yn hen ffasiwn, ee wedlock

Rhannwch y fersiwn wedi'i symleiddio o Erthygl 25. Sylwch fod y cynnwys yn eithaf gweledigaethol - y dylai pawb gael digon o fwyd, dillad, cysgod a gofal iechyd i fyw bywyd da. Dylid cynnig sylw arbennig i'r rheini a allai fod angen mwy o gefnogaeth neu na allant ddarparu bywyd da iddynt eu hunain yn hawdd.

Fel llofnodwr i'r UDHR, dylai'r DU fod yn sicrhau bod pobl yn profi eu hawliau o dan Erthygl 25 - pa mor dda ydych chi'n meddwl mae'r DU yn ei wneud yn hyn o beth?

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod y DU yn amddiffyn hawliau? Mae gan bob un ohonom rywffaint o gyfrifoldeb. Dylai'r llywodraeth, ar ran y boblogaeth, sicrhau bod polisïau a phwerau sydd ganddyn nhw yn amddiffyn hawliau dynol. Mae gan sefydliadau ac unigolion gyfrifoldebau hefyd.

Myfyriwch ar, neu drafodwch gyda chymydog un cam y credwch y gallai'r llywodraeth ei gymryd ac un cam y gallech chi ei gymryd i gefnogi ac amddiffyn hawliau eich cymunedau fel y disgrifir yn Erthygl 25.

UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: TLODI A CHYFIAWNDER

 10 munud

Rhannwch y dyfyniad gan Bryan Stevenson, 'The opposite of poverty is not wealth, the opposite of poverty is justice'.

Mae Bryan Stevenson yn Gyfreithiwr Hawliau Dynol Americanaidd ac yn sylfaenydd y fenter Equal Justice.

Gwahoddwch fyfyrwyr i gyfrannu eu barn neu ystyried a ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno mai'r gwrthwyneb i dlodi yw cyfiawnder.

Diffinnir cyfiawnder fel yr hyn sy'n foisol gywir neu'n deg.

Rhannwch ystadegyn Oxfam o 2017 - mae'r 8 person cyfoethocaf (pob un yn ddyinion gwyn) yn rhannu cymaint o gyfoeth â'r 50% tlotaf o'r byd. Neu mae 8 o bobl yn rhannu'r un swm â 3.8 biliwn (hynny yw 3,800,000,000 neu 57 x poblogaeth y DU)

A yw myfyrwyr o'r farn bod y dosbarthiad cyfoeth hwn yn foisol gywir neu'n deg? Pam, neu pam ddim?

Mae Erthygl 25 o'r UDHR yn dweud fod gan bawb yr hawl i fywyd da - digon o fwyd, dillad, cysgod a mynediad at ofal iechyd. Pa gam neu gamau (os o gwbl) y dylid eu cymryd yn eu barn nhw?

GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: RHYDDID RHAG EISIAU

 10 munud

Rhannwch y sleid Pedwar Rhyddid Roosevelt o becyn sleidiau Gwasanaeth CA 3, 4 a 5. Yn 1941, rhoddodd Arlywydd America, Franklin D Roosevelt ei anerchiad blynyddol 'Cyflwr yr Undeb' i bobl America. Ynddo gosododd weledigaeth, o fyd â phedwar rhyddid, y credai y gellid ei gyflawni o fewn cenhedlaeth.

Disgrifir y pedwar rhyddid hyn - rhyddid barn a mynegiant, rhyddid i addoli, rhyddid rhag ofn a rhyddid rhag eisiau - i gyd yn yr UDHR, a lofnodwyd ym 1948.

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth allai 'rhyddid rhag eisiau' ei olygu? Gallent fyfyrion, trafod gyda phartner neu gynnig awgrymiadau.

UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

RHYDDID RHAG EISIAU PARHAD **FFILM: CERDDI FLY THE FLAG**

 **5 munud**

Rhannwch y fersiwn wedi'i symleiddio o Erthygl 25. Mae'r UDHR yn disgrifio bwyd, dillad, tai a gofal iechyd - gan roi ystyriaeth arbennig i rai grwpiau. A oes unrhyw beth sydd ar goll o'r rhestir hon yn eich barn chi? Beth yw'r rheswm dros hynny? Gallai enghreifftiau gynnwys dŵr neu WiFi.

Yn 2020 mae pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar swyddi ac incwm llawer o bobl. Mae'r Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol sy'n gweithredu banciau bwyd wedi cael cynnydd o 177% yn nifer y bobl y maent yn eu cefnogi gyda pharseli bwyd brys. Os yw digon o fwyd i fyw bywyd da yn hawl ddynol sydd gennym ni i gyd, sut arall y gallai'r DU sicrhau nad oes neb yn mynd heb fwyd?

Dewiswch un o'r cerddi a gomisiynwyd ar gyfer *Fly The Flag* 2020 ac a awgrymir ym mhecyn sleidiau Gwasanaeth CA3, 4 a 5 - beth mae myfyrwyr yn sylwi arno neu'n ei fwynhau?

Pam ydych chi'n meddwl bod prosiect *Fly The Flag* yn gofyn i feirdd ysgrifennu am Erthygl 25 - yr hawl i fywyd da yn 2020? (Nid oes llawer o bobl yn gwybod eu hawliau dynol, mae hawliau dynol mewn perygl yn y DU ac o amgylch y byd, mae pandemig Coronafeirws wedi golygu bod llawer mwy o hawliau dynol pobl yn cael eu bodloni).

Pam mae gan feirdd, artistiaid, a sefydliadau celfyddydol fel theatrau ac orielau ddiddordeb mewn hawliau dynol? Gall artistiaid, a gwneud celfyddyd - ysgrifennu, arlunio, theatr, cerddoriaeth - newid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn gweithredu. Gall y celfyddydau ein helpu i symud yn nes at fyd lle mae hawliau dynol pawb yn cael eu deall a'u parchu. Yr hawl i wneud a mwynhau celfyddyd yw un o'n hawliau dynol.

UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

MYFYRDODAU / CWESTIYNAU TRAFOD

Gellir defnyddio'r cwestiynau hyn ar gyfer myfyrio tawel, trafod â phartner, ysgogi trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth, neu ar gyfer trafodaeth mewn gwasanaeth.

Rhannwch y dyfyniad gan Bryan Stevenson, 'The opposite of poverty is not wealth, the opposite of poverty is justice'. Ydych chi'n cytuno ag ef? Pa gamau y gallwn ni fel unigolion eu cymryd i sicrhau cyfiawnder?

Sut fyddai'r byd yn wahanol pe bai pawb yn rhydd rhag eisiau?

Sut gall artistiaid – cerddorion, llenorion, artistiaid gweledol - newid y byd rydym yn byw ynddo?

Sut y byddwch chi'n *Fly The Flag* dros hawliau dynol?

AWGRYMIADAU AR GYFER GWASANAETHAU DAN ARWEINIAD ATHRAWON A MYFYRWYR AR Y CYD

Gallai'r myfyrwyr greu golygfeydd byr sy'n dangos pob elfen o Erthygl 25, naill ai'n cael eu hamddiffyn neu eu torri. Gallech annog myfyrwyr i ymchwilio i straeon newyddion i ddefnyddio enghreifftiau cyfoes go iawn.

Mae myfyrwyr yn creu ffilm fer lle maen nhw'n darllen ac yn trafod Erthygl 25, a cherddi, rhyddiaith neu waith celf wedi'u creu mewn ymateb i'r erthygl, mewn gwahanol leoliadau o amgylch yr ysgol. Gallech adlewyrchu'r holl ieithoedd gwahanol sy'n cael eu defnyddio yng nghymuned eich ysgol.

Gallai myfyrwyr ysgrifennu eu cerddi eu hunain wedi'u hysbrydoli gan *Fly The Flag* neu ganllaw ysgrifennu [Amnest Rhyngwladol - Words that](#)

[Burn](#). Gellid ffilmio'r rhain a'u rhannu neu eu perfformio'n fyw.

Rhannu cyflwyniad gan ddefnyddio gweithgaredd dilynol yng [nghynlluniau gwersi *Fly The Flag*](#). Gallai hyn fod ynglŷn ag Eleanor Roosevelt, Ai Weiwei neu un o'r astudiaethau achos.

Gallai myfyrwyr ddefnyddio gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o ymgyrch benodol sy'n gysylltiedig ag Erthygl 25 y maent wedi'i chreu, wedi'i hysbrydoli gan [gynlluniau gwersi *Fly The Flag*](#).

“Mae gan bob un ohonom yr hawl i fywyd da, gyda digon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. Mae gan famau a phlant, pobl heb waith, hen bobl a phobl anabl yr hawl i gymorth.”

ERTHYGL 25 Y DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL
(FERSIWN WEDI'I SYMLEIDDIO GAN AMNEST RHYNGWLADOL Y DU)






Ai Weiwei

Llun gan Camilla Greenwell





FERSIWN CRYNO O'R DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

Erthygl 1 – Cawson ni ein geni'n rhydd ac yn gyfartal, a dylen ni drin pobl eraill yn yr un ffordd.

Erthygl 2 – Mae gyda ni'r hawliau hyn i gyd yn y Datganiad, pwy bynnag rydyn ni, o ble rydyn ni'n dod neu mewn beth rydyn ni'n ei gredu.

Erthygl 3 – Mae gyda ni'r hawl i fywyd, i fod yn rhydd ac i deimlo'n ddiogel.

Erthygl 4 – Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud ni'n gaethweision. Ni allwn wneud unrhyw un arall yn gaethwas i ni.

Erthygl 5 – Does gan neb yr hawl i'n brifo, i'n poenydio na'n bychanu.

Erthygl 6 – Mae gan bawb yr hawl i gael eiu ddiogelu gan y gyfraith.

Erthygl 7 – Mae'r gyfraith yr un peth i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin ni i gyd yn deg.

Erthygl 8 – Gall pob un ohonom ofyn i'r gyfraith ein helpu ni pan na chawn ein trin yn deg.

Erthygl 9 – Does gan neb yr hawl i'n rhoi yn y carchar, nac ein hanfon i ffwrdd o'n gwlad, heb resymau da.

Erthygl 10 – Os cawn ni ein cyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gyda ni'r hawl i brawf teg a chyhoeddus.

Erthygl 11 – Ddylai neb gael y bai am wneud rhywbeth nes bod prawf ei fod wedi ei wneud.

Erthygl 12 – Does gan neb yr hawl i fynd i mewn i'n cartref, agor ein llythyrau, nac ein poeni ni neu'n teuluoedd heb reswm da.

Erthygl 13 – Mae gan bob un ohonom yr hawl i fynd lle bynnag y mynnom yn ein gwlad ein hun, ac i deithio dramor fel y dymunwn.

Erthygl 14 – Os bydd rhywun yn ein brifo ni, mae gyda ni'r hawl i fynd i wlad arall i ofyn am amddiffyniad.

Erthygl 15 – Mae gan bob un ohonom yr hawl i berthyn i wlad.

Erthygl 16 – Pan fyddwn ni'n ddigon hen yn ôl y gyfraith, mae gyda ni'r hawl i briodi a chael teulu.

Erthygl 17 – Mae gan bawb yr hawl i berchen ar bethau neu eu rhannu nhw.



FERSIWN CRYNO O'R DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

Erthygl 18 – Mae gyda ni i gyd yr hawl i'n meddyliau ein hunain ac i gredu mewn unrhyw grefydd.

Erthygl 19 – Rydyn ni'n gallu meddwl am beth bynnag rydyn ni eisiau, dweud beth rydyn ni'n ei feddwl a rhannu syniadau a gwybodaeth gyda phobl eraill.

Erthygl 20 – Mae gyda ni i gyd yr hawl i gwrdd â'n ffrindiau a gweithio gyda'n gilydd mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Dydy e ddim yn iawn i orfodi rhywun i ymuno â g r w ^ p.

Erthygl 21 – Mae gan bob un ohonom yr hawl i gymryd rhan yn llywodraeth ein gwlad. Dylai pob oedolyn gael yr hawl i ddewis eu harweinyddion ei hun.

Erthygl 22 – Dylai'r lle rydyn ni'n byw ein helpu i ddatblygu a gwneud y gorau o'r holl fanteision (diwylliant, gwaith, lles cymdeithasol) sydd ar gael. Mae cerddoriaeth, celf, crefft a chwaraeon i bawb eu mwynhau.

Erthygl 23 – Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, yr hawl i gy og teg am eu gwaith, ac i ymuno ag undeb llafur.

Erthygl 24 – Mae gyda ni i gyd yr hawl i orffwys ac amser rhydd.

Erthygl 25 – Mae gyda ni i gyd yr hawl i safon bywyd da, gan gynnwys digon o fwyd, dillad, tai a chymorth meddygol os ydyn ni'n sâl. Mae gyda mamau a phlant a phobl sy'n hen, yn ddi-waith, neu'n anabl yr hawl i gael gofal.

Erthygl 26 – Mae gyda ni i gyd yr hawl i addysg.

Erthygl 27 – Maegydanii gydyr hawl i'r annucelfa gwyddoniaeth ein cymuned, a'r pethau da maen nhw'n eu gwneud.

Erthygl 28 – Mae'n rhaid cael heddwch a threfn er mwyn amddiffyn yr hawliau a'r rhyddid hyn, ac rydyn ni'n gallu eu mwynhau yn ein gwlad ni a ledled y byd.

Erthygl 29 – Mae dyletswydd arnom dros bobl eraill, a dylem ddiogelu eu hawliau a'u rhyddid.

Erthygl 30 – Ni all neb gymryd yr hawliau a'r rhyddid hyn oddi arnom. Dyma fersiwn syml o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol DU.



DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL 1948

Fersiwn testun plaen o
[www.edu.gov.mb.ca/k12/cur/socstud/
foundation_gr3/blms/3-2-3b.pdf](http://www.edu.gov.mb.ca/k12/cur/socstud/foundation_gr3/blms/3-2-3b.pdf)

RHAGARWEINIAD

Oherwydd mai parch tuag at bwysigrwydd cyfartal pob bod dynol yw'r unig ffordd y caiff y byd dryddid, cyfiawnder a heddwch;

Oherwydd bod anwybyddu hawliau bodau dynol wedi achosi gweithredoedd casineb sydd wedi dychryn a thristau pobl y byd; ac rydym i gyd eisiau byw mewn byd lle gall pobl siarad yn rhydd am yr hyn y maent yn ei gredu, a lle nad oes neb yn dlawd nac yn ofnus;

Oherwydd ei fod yn bwysig y dylai deddfau ddiogelu pawb, fel na chaiff neb ei orfodi i wrthryfela yn erbyn creulondeb;

Oherwydd ei fod yn bwysig bod gwledydd yn dysgu i dynnu ymlaen â'i gilydd;

Oherwydd bod pobloedd y byd wedi dweud yn Siarter y Cenhedloedd Unedig eu bod nhw'n credu mewn hawliau dynol, ac yng ngwerth pob dyn a menyw, ac maen nhw wedi penderfynu gweithio ar gyfer byd gwell, bywyd gwell a mwy o ryddid i bawb;

Oherwydd mae pob aelod-wlad o'r Cenhedloedd Unedig wedi addo cydweithio i barchu hawliau a rhyddid dynol;

Oherwydd bod angen i bob gwlad gael yr un ddealltwriaeth o'r hyn yw'r hawliau dynol a'r rhyddid hyn;

Nawr, felly, mae'r Cynulliad Cyffredinol yn cyhoeddi bod yn rhaid, fel rheol, dilyn a chofio'r Datganiad Cyffredinol hwn o Hawliau Dynol bob amser gan bobl a chymdeithasau'r byd, wrth iddynt addysgu parch at yr hawliau a'r rhyddid hyn, gan wneud popeth posibl i sicrhau eu bod yn cael eu cadw gan holl wledydd y Cenhedloedd Unedig a chan yr holl bobl sy'n byw yn y gwledydd hyn.



ADNODDAU YCHWANEGOL

Gallwch brynu baner o'r wefan [yma](#) – ond rydym yn eich annog i wneud un gyda'ch myfyrwyr.

- Gallwch ddod o hyd i holl gerddi 2020 *Fly The Flag* sydd newydd eu comisiynu ar www.FlyTheFlag.org.uk o 10 Rhagfyr 2020.
- Amnest Rhyngwladol – *Words that Burn* chwe chynllun gwers i ysbrydoli myfyrwyr uwchradd i ysgrifennu eu cerddi eu hunain wedi'u hysbrydoli gan Hawliau Dynol.
- Prosiect Ysgrifennu *Writing Wrongs Donmar Warehouse* - monologau gan wahanol awduron a phobl ifanc yn archwilio beth mae hawliau dynol yn ei olygu iddyn nhw. Mae yna ganllaw ar gyfer ysgrifennu eich monolog *Writing Wrongs* eich hun ar dudalennau 19-21 [pecyn Gwasanaeth 2019 Fly The Flag](#).
- Gallwch lawrlwytho testun gwreiddiol y [Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yma](#).

- Mae'r [fideo TED Ed](#) byr hwn yn gyflwyniad defnyddiol i bwnc hawliau dynol.
- Mae gan Amnest Rhyngwladol DU [adnoddau addysgu cynhwysfawr am ddim ar hawliau dynol](#). Yn ogystal ag adnoddau creadigol manwl ar gyfer pob oedran, gallwch; drefnu i siaradwr Amnest Rhyngwladol ddod i'ch ysgol, cael gwybod am sefydlu Grŵp Ieuenctid Amnest Rhyngwladol yn yr ysgol neu ymuno â chynllun gwybodaeth tymhorol Amnest Rhyngwladol – *Teach Rights* – sy'n cynnwys manylion am brosiectau y gall eich ysgol gymryd rhan ynddynt, cyfleoedd hyfforddi a manylion am adnoddau newydd wrth iddynt ddod ar gael.
- Fe allwch archebu [Pasportau My Rights](#) am ddim o Amnest Rhyngwladol. Llyfryn maint poced lliwgar o holl erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i fyfyrwyr 11+ oed. I archebu: ffoniwch 01788 545 553 a dyfynnwch y cod ED112.
- Amnest Rhyngwladol [rhestr o adnoddau addysgu am yr argyfwng ffoaduriaid](#), gan gynnwys linc i amrywiaeth o gemau rhyngweithiol ar gyfer pobl ifanc 7-19 oed.
- Y Groes Goch – [adnoddau addysgu](#) sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gyfer CA 1 - 5, ynghylch amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gwrthdaro a thrais, dyngarwch, ymfudo a ffoaduriaid.
- [Adnoddau addysgu UNICEF](#) ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 - 5, ynghlân â'r argyfwng ffoaduriaid gyda ffocws ar hawliau dynol/hawliau'r plentyn.
- [Achub y Plant: Complete guide to campaigning](#) ar gyfer pobl ifanc.
- [Canllaw ymchwil ar gyfer y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol](#), gan gynnwys linc i gofnodion gair-am-air y cyfarfod lle y cafodd y datganiad ei fabwysiadu.





Pecyn gwasanaethau *Fly The Flag*

Crewyd gan Fuel, ar ran *Fly The Flag*

Ysgrifennwyd gan Anne Langford

Golygwyd gan Fuel

*Caiff **Fly The Flag** ei gyflwyno gan gasgliad unigryw o sefydliadau celfyddydol ac elusennau hawliau dynol. Gellir dod o hyd i restr lawn o'n partneriaid [yma](#).*

FLY
THE
FLAG